# PWYLLGOR CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 15 Mehefin, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd A.M. Collins (Cadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, G.M. Ball, S. Campbell, G.D.D. Carroll, S.M. Hanks, W.A. Hennessy, B. Loveluck-Edwards, M.J.G. Morgan ac S.D. Perkes.

Hefyd yn bresennol: C. Ireland (Cynrychiolydd Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro); Cynghorwyr R. Sivagnanam (Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddiol), M.R. Wilkinson (Aelod Cabinet dros Dai Sector Cyhoeddus a Chynnwys Tenantiaid), E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd) ac M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

## 60 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

## 61 PENODI IS-GADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – Y Cynghorydd B. Loveluck-Edwards yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd am y flwyddyn Ddinesig.

## 62 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Cynghorydd I. Buckley; G. Doyle, V. John a H. Smith (Cynrychiolwyr o'r Gweithgor Tenantiaid / Panel).

## 63 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Ebrill, 2022 fel cofnod cywir.

## 64 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

65 CYFLWYNIAD I'R PWYLLGOR CRAFFU CARTREFI A CHYMUNEDAU DIOGEL –

I nodi cyfarfod cyntaf y Pwyllgor yn dilyn Etholiad Llywodraeth Leol 2022, rhoddodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai y cyflwyniad hwn i'r Pwyllgor Craffu gan nodi'r canlynol:

- Trefniadau llywodraethu'r Pwyllgor a phroses cynllunio busnes y Cyngor a rôl y Pwyllgor yn hyn o beth.
- Gweledigaeth allweddol neu 'ddatganiad cenhadaeth' y Cyngor oedd 'Cymunedau Cryf â Dyfodol Disglair' a helpodd yn sylfaenol i lywio busnes y Cyngor a'r gwasanaethau yr oedd yn eu darparu i drigolion. Er mwyn ategu'r weledigaeth honno, roedd y Cyngor wedi pennu cyfres o ganlyniadau a oedd yn hanfodol o ran mesur a rheoli perfformiad y Cyngor.
- Amcanion y Cynllun Corfforaethol a oedd yn cyd-fynd fwyaf â chylch gwaith y Pwyllgor.
- Sut roedd gwaith y Pwyllgor yn cyd-fynd â chyfrannu at Nodau Lles Cymru sy'n rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a sut y cafodd gwaith craffu effeithiol ei wella gan y Ddeddf drwy'r pum ffordd o weithio.
- Roedd 4 amcan lles Cynllun Corfforaethol Bro Morgannwg ar gyfer 2020–25 yn cynnwys:
    - Gweithio gyda, a thros ein cymunedau
    - Cefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy
    - Cefnogi pobl gartref ac yn y gymuned
    - Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd
- Roedd themâu allweddol dilynol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2022–23 yn gysylltiedig â'r amcanion hyn ac yn rhedeg drwyddynt (h.y. Prosiect Sero, Gallu Cymunedol, Caledi, Gofal a Chymorth, Trawsnewid a Seilwaith). Adroddwyd ar berfformiad blynyddol bob chwarter i bob Pwyllgor Craffu i'w ystyried.
- O ran perfformiad, bu'n flwyddyn neu ddwy heriol iawn i'r Cyngor, ond roedd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau, neu bob un ohonynt, wedi parhau drwy'r pandemig, ac roeddent yn parhau yn y rhan fwyaf o achosion i berfformio'n dda. Byddai'r Pwyllgor yn cael cyfle i graffu ar berfformiad pob un o'r gwasanaethau sy'n adrodd i'r Pwyllgor hwn.
- Edrychodd pob Pwyllgor ar y materion yn ymwneud â'r canlyniadau yr oedd y Cyngor am eu cyflawni er mwyn cyflawni ei weledigaeth. Er mwyn creu'r cysylltiadau, a mabwysiadu dull integredig o gwblhau gwaith y Cyngor, dyrannwyd nifer o wasanaethau o fewn cylch gwaith penodol pob Pwyllgor. Daeth cwmpas y Pwyllgor hwn a'i rôl yn un o swyddogaethau'r Cyngor dan y canlyniad 'Bro Gynhwysol a Diogel' ac roedd yn cwmpasu meysydd mor amrywiol ond cysylltiedig fel Tai Cyhoeddus, Cynnal a Chadw Tai Cyhoeddus, Diogelu'r Cyhoedd gan gynnwys holl swyddogaethau'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, Diogelwch Cymunedol, Tai'r Sector Preifat ac Ardaloedd Adnewyddu, Materion Trosedd ac Anhrefn, ac ati.
- O fewn Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Thai, roedd gan bob gwasanaeth ei gynllun unigol ei hun hefyd fel y Gwasanaethau Tai ac Adeiladau a'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir a oedd yn bwydo i mewn i'r Cynllun Corfforaethol cyffredinol. Roedd hyn i gyd wedi'i strwythuro'n dda ac yn cynnig 'llinyn aur' o'r hyn yr oedd staff yn ei wneud ar lefel weithredol (h.y.

codi sbwriel) hyd at y lefel gorfforaethol / strategol (drwy'r Cynllun Corfforaethol), gan sicrhau bod pawb yn gwybod beth oedd eu rôl o fewn y sefydliad.

- Amlinellwyd swyddogaethau a phersonél yr Uwch Dîm i'r Pwyllgor, gyda Phennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladau a Phennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, a oedd yn bresennol, yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn rhai o'r uwch swyddogion allweddol a fyddai'n mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor yn rheolaidd. Hefyd, byddai mwy o swyddogion iau'r Cyngor yn bresennol er mwyn cyflwyno meysydd allweddol o'u gwaith i'r Pwyllgor i'w craffu. Byddai Aelod(au) Cabinet hefyd yn bresennol ac yn ateb cwestiynau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.
- Pe bai unrhyw gwestiynau technegol neu benodol iawn yn cael eu gofyn o bapurau cyn cyfarfod y Pwyllgor, dywedwyd wrth yr Aelodau i roi gwybod i'r Gwasanaethau Democrataidd er mwyn iddynt ymchwilio i'r ateb cyn cyfarfod y Pwyllgor. At hynny, ar gyfer adroddiadau trawsbynciol (fel perfformiad), dylai'r Aelodau roi gwybod i'r Gwasanaethau Democrataidd am unrhyw gwestiynau penodol (h.y. sy'n canolbwyntio ar feysydd penodol o ddiddordeb) fel y gallai'r Swyddogion allweddol fod yn bresennol. Pe na bai'r Swyddogion yn gwybod yr ateb mewn cyfarfod, byddent yn ymrwymo i ddod o hyd iddo a'i roi dros e-bost yn fuan ar ôl y cyfarfod ac yn croesawu cwestiynau heriol gan Aelodau'r Pwyllgor.

Yn dilyn y cyflwyniad, cafwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor ac eraill:

- Gofynnodd y Cynghorydd Perkes am y gyllideb ar gyfer Gwasanaethau'r Amgylchedd a Thai a gofynnodd beth sy'n defnyddio'r swm mwyaf ohoni. Eglurodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai mai Rheoli Gwastraff a Chynnal a Chadw Priffyrdd (y tu allan i gylch gwaith y Pwyllgor) a oedd yn defnyddio'r swm mwyaf ohoni gan mai nhw oedd asedau mwyaf y Cyngor. O fewn cylch gwaith y Pwyllgor, roedd heriau eraill a phethau'n defnyddio swm mawr o'r gyllideb hefyd gan gynnwys digartrefedd, y cyflenwad tai, yr argyfwng costau byw, cefnogi ffoaduriaid o Wcráin, Affganistan a Syria. Amlinellodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladau y materion hyn ymhellach (fel rhoi cymorth cofleidiol i ffoaduriaid Wcráin hyd at eu trefniadau lletya), a chyfeiriodd at raglen uchelgeisiol y Cyngor o adeiladu mwy o dai Cyngor a'i heriau (h.y. diffyg tir fforddiadwy) ac at lwyddiannau eraill fel y ffaith bod Cyngor Bro Morgannwg yn un o'r Awdurdodau Lleol mwyaf llwyddiannus yng Nghymru o ran cynhyrchu tai fforddiadwy o ddatblygiadau'r sector preifat yn y Fro. Cyfeiriwyd yr Aelodau hefyd at Gynllun Busnes Tai'r Cyngor, gyda Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu i rannu hyn gyda'r Pwyllgor er gwybodaeth iddo.
- Gofynnodd y Cynghorydd Loveluck-Edwards, yng ngoleuni'r heriau a godwyd gan Bennaeth y Gwasanaeth uchod, a fyddai diweddariadau pellach ynghylch y Strategaeth Atal Digartrefedd a'r Cynllun Gweithredu yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor er mwyn iddo eu trafod, cael trosolwg ohonynt a chraffu arnynt. Esboniwyd y byddent yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor ac y byddai dogfennau strategol a chynlluniau gweithredu o'r fath yn mynd naill ai i'r Pwyllgor Craffu neu'r Cabinet yn gyntaf ac yna ymlaen i'w gilydd gyda'r sylwadau a'r argymhellion / penderfyniadau.

- O ran ymholiad y Cynghorydd Aviet ynghylch pa gymorth oedd yn cael ei roi i ffoaduriaid Wcráin a'u teuluoedd lletyol, a'r heriau sy'n wynebu hyn, esboniwyd bod y Cyngor wedi ffurfio partneriaeth ranbarthol gyda Chyngor Caerdydd er mwyn rhannu adnoddau ac arbenigedd. Oherwydd graddfa hyn, bu rhywfaint o oedi o ran ymweliadau â thai a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ond roedd llawer mwy o'r rhain yn cael eu gwneud erbyn hyn ar ôl deall y raddfa a'r angen yn llawn. Roedd y Cyngor yn awyddus i recriwtio staff ychwanegol er mwyn rhoi cymorth cofleidiol ychwanegol, cymorth ymyrraeth cam cyntaf, a chyngor ar gyflogaeth a budd-daliadau lles i ffoaduriaid Wcráin a theuluoedd lletyol, ar y cyd â Llamau a oedd yn cael eu cyflogi'n ddarparwr cymorth ar gyfer y cymorth cam cyntaf cychwynnol. Fodd bynnag, nodwyd bod y gronfa recriwtio ar gyfer staff cymorth yn gyfyngedig. Hyd yn hyn, dim ond nifer fach o achosion a gafwyd lle'r oedd trefniadau lletya o'r fath wedi chwalu, oherwydd ffactorau fel y disgwyliadau a oedd gan y teuluoedd lletyol a theuluoedd Wcráin o'i gilydd a'r costau / cymorth cysylltiedig.
- Pwysleisiodd y Cynghorydd Carroll yr angen i'r Cyngor sicrhau meddwl 'cydgysylltiedig' rhwng y gwahanol adrannau wrth helpu ffoaduriaid i ymgartrefu yn y Fro, ac ati, a gofynnodd pa drafodaethau a gynhaliwyd rhwng y gwahanol adrannau (fel Tai, Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol) i sicrhau bod y cymorth hwnnw i ffoaduriaid yn rhedeg mor ddidrafferth â phosibl. Esboniwyd, er bod trafodaethau a chymorth o'r fath i ffoaduriaid rhwng gwahanol adrannau'r Cyngor wedi bod yn 'drwsgl' i ddechrau'n rhannol oherwydd diffyg arweiniad ar y dechrau, a heb fod yn ymwybodol o nifer y ffoaduriaid o Wcráin yn dod i'r Fro mewn awyrennau, ar drenau neu o rannau eraill o Gymru, roedd cyfathrebu wedi gwella ar hyn dros y misoedd diwethaf ac roedd gan y Cyngor bellach werthfawrogiad llawnach o'r raddfa a'r heriau cysylltiedig. Roedd y Tîm Tai wedi arwain gwaith yn y maes hwn ac arweiniodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladau grŵp mewnol o fewn y Cyngor, gan gynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir. Cydlynwyd y materion a godwyd yno drwy Tom Dodsworth, y Cydlynydd Ailsefydlu. Bu heriau'n ymwneud â phartneriaid eraill hefyd h.y. sgrinio iechyd a derbyn i ysgolion, ond roedd hyn hefyd yn cael ei weld ar lefel Cymru gyfan ac roedd y sefyllfa bellach yn gwella, yn rhannol oherwydd y gwaith cyson yn cael ei wneud ar hyn gan y niferoedd cymharol fach o staff gweithredol a staff uwch yng Nghyngor Bro Morgannwg.
- Cyflwynodd Aelodau'r Cabinet dros Wasanaethau Adeiladau a Chymdogaeth, Tai'r Sector Preifat ac Ymgysylltu â Thenantiaid eu hunain i'r Pwyllgor gan nodi eu cyfrifoldebau o ran cylch gwaith y Pwyllgor. Siaradon nhw hefyd am yr heriau amrywiol yr oedd eu meysydd portffolio yn eu hwynebu, fel recriwtio a chadw staff y Gwasanaeth Tai ac Adeiladau, Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), rhan 2 a phwysleision nhw, gan fod y Cyngor yn cadw ei stoc tai cymdeithasol, ei bod yn hanfodol parhau i sicrhau bod gan denantiaid gartrefi gweddus i fyw ynddynt.
- Gofynnodd y Cynghorydd Perkes am gyhoeddiad Llywodraeth y DU ynghylch annog landlordiaid cymdeithasol i werthu eu heiddo. Esboniwyd bod y cyhoeddiad hwn yn berthnasol i Loegr yn unig ac nad oedd hawl i brynu yng Nghymru a bod deddfwriaeth tai wedi'i datganoli i Lywodraeth Cymru (a oedd wedi deddfu i ddileu'r hawl i brynu sawl blwyddyn yn ôl). Fodd bynnag, roedd

y Cyngor yn ymwybodol bod rhai pobl a oedd yn awyddus i brynu ac felly defnyddiodd yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol i fesur y galw am y gwahanol ddeiliadaethau yn y Fro ac, yn seiliedig ar hyn, i ddylanwadu drwy'r Cynllun Datblygu Lleol a rhaglen adeiladu'r Cyngor ei hun er mwyn bodloni'r anghenion hynny ac anghenion eraill h.y. rhenti cyfradd 'llai na'r farchnad' ac opsiynau perchnogaeth cost isel eraill, gan barhau i adeiladu mwy o dai cymdeithasol a dod o hyd i lety i bobl ddigartref, ac ati.

Gwnaeth y Pwyllgor, ar ôl ystyried y cyflwyniad a phob mater a goblygiad ynddo,

ARGYMHELLWYD – Nodi'r cyflwyniad ar y Cyflwyniad i'r Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y cyflwyniad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

66 CYNLLUN BUSNES GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR (CAT) –

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan Bennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn nodi'r broses ar gyfer datblygu Cynllun Busnes drafft y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar gyfer 2022/23.

Roedd angen i'r Cydbwyllgor gadarnhau'r Cynllun drafft a oedd yn rhan o broses adrodd flynyddol y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir a nodwyd yng Nghytundeb Cydweithio'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

Roedd yr adroddiad yn rhoi'r cyfle i graffu ar y Cynllun Busnes cyn gwneud penderfyniadau cyn ei gyflwyno i Gydbwyllgor y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir y canlynol i'r Pwyllgor hefyd:

- Roedd y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir wedi deillio o drafodaethau rhwng Cynghorau Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg i sicrhau gwydnwch y gwasanaethau rheoliadol ar draws y tair ardal Cyngor hynny, i redeg eu gwasanaethau'n fwy effeithlon, i arbed arian, ac i ganiatáu meysydd arbenigol.
- Roedd y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir hefyd yn darparu un strwythur rheoli, gyda llywodraethu drwy Gytundeb Cydweithio, Cydbwyllgor a threfniadau Craffu'r Cynghorau perthnasol.
- Roedd y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn cwmpasu gwahanol feysydd a gwasanaethau, gan gynnwys Iechyd yr Amgylchedd, Trwyddedu, Safonau Masnach, Iechyd a Diogelwch a Benthyca Arian yn Anghyfreithlon mewn grwpiau mwy fel Cymdogaeth, Masnachol a Menter a Gwasanaethau Arbenigol, gyda chefnogaeth y Tîm Gweinyddu / Cymorth Busnes a oedd yn gweithredu'n rhyngwyneb rhwng y timau arbenigol hynny a'r trigolion a'r busnesau yr oedd y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn gweithio gyda nhw.

- Roedd Cynllun Busnes y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn cyflawni'r gofynion statudol wedi'u gosod ar bob Cyngor ac yn cefnogi blaenoriaethau corfforaethol pob Cyngor drwy ei bum thema strategol (Gwella Iechyd a Lles, Diogelu'r Amgylchedd, Cefnogi'r Economi Leol a Diogelu Pobl Agored i Niwed a Gwneud y Defnydd Gorau o Adnoddau). Yn eu tro byddai'r themâu hyn yn cael eu rhaeadru i lawr y sefydliad a'u troi'n gamau gweithredu a chanlyniadau ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.
- Roedd y Cynllun Busnes yn nodi'r cyflawniadau gwasanaeth yn 2021-22 dan bob un o'r themâu strategol. h.y. ymateb i bandemig COVID-19 (gan gynnwys gwasanaeth Profi Olrhain a Diogelu, cefnogi lleoliadau risg uchel, sicrhau cydymffurfiaeth busnesau a theithwyr yn dychwelyd) tra'n ceisio gwneud gwaith arferol y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (gan gynnwys y rhaglen fwyd, tai, llygredd, ymyriadau safonau masnach ac atal parhaus, yn ogystal ag erlyn troseddau / sgamiau stepen drws, masnachwyr twyllodrus a bridio cŵn yn anghyfreithlon ac atafaelu sigaréts a thybaco anghyfreithlon).
- O ran edrych i'r dyfodol, roedd yr heriau allweddol yn cynnwys yr ymateb parhaus i amrywiolion newydd posibl o COVID-19, dal i fyny gyda gwaith arferol y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, mynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â recriwtio a chadw staff allweddol neu arbenigol a datblygu strategaeth gysylltiedig (gan gynnwys Prentisiaethau Rheoliadol Llywodraeth Cymru).
- Ymhlith y materion eraill yn dod i'r amlwg roedd yr argyfwng costau byw, y newid yn yr hinsawdd (gan gynnwys yr angen i wella effeithlonrwydd ynni yn y sector rhent preifat drwy weithio gyda landlordiaid), deddfwriaeth newydd yn ymwneud â Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru), darpariaethau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) sy'n ymwneud â Gweithdrefnau Arbennig, a gofynion di-fwg, anawsterau'r gadwyn gyflenwi (pecynnu a labelu, effaith y rhyfel yn Wcráin, ac ati), yn ogystal â'r angen parhaus i ddiogelu trigolion hŷn ac agored i niwed (h.y. gosod rhwystrau galwadau er mwyn atal galwadau niwsans).
- Byddai'r Cynllun Busnes yn cael ei gyflwyno i Gydbwyllgor y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar 28 Mehefin. Roedd ymgynghori ag asiantaethau partner yn parhau, felly gallai'r Cynllun newid a chroesawyd unrhyw sylwadau neu feddyliau gan y Pwyllgor Craffu ar Gynllun Busnes 2022-23.

Ar ôl i Bennaeth y Gwasanaeth gyflwyno'r adroddiad, cafwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor ac eraill:

- Gofynnodd y Cynghorydd Hanks a oedd y Cynllun Prentisiaeth Rheoliadol wedi dechrau eto a faint o bobl yr oedd y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn bwriadu recriwtio i'r cynllun. Esboniwyd bod y cynllun yn ddatblygiad diweddar iawn ac felly roedd angen gwaith pellach arno er mwyn ei weithredu, h.y. byddai'n rhaid i'r angen i gynnwys Cymwysterau Cymru a grŵp llywio benderfynu ar gynnwys y cymhwyster hwnnw. Byddai angen i'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir hefyd edrych ar y ffigurau i weld faint yn union o brentisiaid y byddai'n gallu eu cyflogi oherwydd byddai angen i'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir eu cadw am nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, roedd yn hanfodol gwneud cyfleoedd o'r fath yn 'weladwy' er mwyn

cael pobl iau i mewn i'r meysydd gwaith arbenigol hyn a mynd i'r afael â'r mater gweithlu sy'n heneiddio.

- Gofynnodd yr Is-gadeirydd y canlynol:
  - O ran y materion recriwtio a chadw staff, nid oedd Cynllun Busnes y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn sôn am rôl Undebau Llafur o ran helpu yn y maes hwn. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir y ceid gwybod am farn y staff drwy ymarfer ymgynghori a chreu ffrwd waith bwrpasol lle nad oedd 'dim byd yn amhosibl' o ran nodi a datrys unrhyw rwystrau i recriwtio a chadw staff. Cytunodd ar rinweddau cynnwys Undebau Llafur yn y gwaith hwn.
  - Roedd y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir wedi cynnal hyfforddiant camfanteisio'n rhywiol ar blant gyda gyrwyr / cwmnïau tacsis a gofynnodd yr Is-gadeirydd a fyddai'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn cynnal hyfforddiant arall, tebyg neu godi ymwybyddiaeth ynghylch meysydd fel anabledd. Esboniwyd bod gwaith codi ymwybyddiaeth o anabledd yn cael ei wneud gyda gyrwyr tacsis a bod gwiriadau math 'siopwr dirgel' yn cael eu cynnal i sicrhau bod y gwaith o godi ymwybyddiaeth yn gweithio a bod gyrwyr tacsis yn delio â sefyllfaoedd o'r fath yn briodol, gyda chanlyniadau calonogol yn deillio o'r rhain.
  - Oherwydd diffyg data cartrefi gwag ar gyfer Bro Morgannwg yng Nghynllun Busnes y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, esboniwyd, yn wahanol i Gaerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr, nad oedd gan y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ym Mro Morgannwg gyfrifoldeb dros y maes hwn, yr ymdrinnir ag ef yn rhywle arall.
- Roedd yr Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoliadol am ychwanegu bod y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn stori newyddion dda iawn i Gyngor Bro Morgannwg gan eu bod yn dangos sut y gallai'r Cyngor weithio mewn partneriaeth â dau Awdurdod Lleol arall a rhannu ei arbenigedd, arwain rhai meysydd a gwasanaethu pob aelod o'r gymuned leol.

Gwnaeth y Pwyllgor, ar ôl ystyried y cyflwyniad a phob mater a goblygiad ynddo,

ARGYMHELLWYD – Nodi Cynllyn Busnes drafft y Gwasanaethau Rheoliadol a rennir ar gyfer 2022/23.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

67 TRACIO ARGYMHELLION CRAFFU 4YDD CHWARTER 2021/22 AC ATODLEN RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL FLYNYDDOL ARFAETHEDIG 2022/23 (PW) –

Rhoddodd yr adroddiad wybod i'r Aelodau am gynnydd argymhellion y Pwyllgor Craffu yn y gorffennol ac amserlen arfaethedig y Flaenraglen Waith Flynyddol ar gyfer 2022/23:

- Olrhain Argymhellion Chwarter 4, mis Ionawr i fis Mawrth 2022 (Atodiad A);

- Olrhain Argymhellion Chwarter 3, mis Hydref i fis Rhagfyr 2021 (Atodiad B);
- Olrhain Argymhellion Chwarter 1, mis Ebrill i fis Mehefin 2021 (Atodiad C);
- Olrhain Argymhellion heb eu Cwblhau, 2019-20 (Atodiad D);
- Blaenraglen Waith Flynyddol y Cabinet ar gyfer 2022/23 (Atodiad E);
- Amserlen Arfaethedig Blaenraglen Waith Flynyddol 2022/23 (Atodiad F).

Ynghylch Atodiad C, esboniodd Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu fod yr argymhelliad ar gyfer y Diweddariad ar y Gwasanaeth Cydlynwyr Atgyfeirio ac Asesu Cam-drin Domestig yn parhau oherwydd effaith Covid-19. Cafodd y gwaith hwn ei ohirio oherwydd y brif flaenoriaeth o gadw dioddefwyr yn ddiogel a'r anawsterau o ran cwrdd â dioddefwyr. Roedd y swyddogion wedi cyfarfod â Phrif Weithredwr Atal y Fro (darparwr gwasanaethau cam-drin domestig yn y Fro) i drafod y flaenoriaeth a chytunwyd y bydd y gwaith cwmpasu yn digwydd yn hydref 2022.

O ran Atodiad D, rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladau y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr argymhellion ynghylch yr adroddiad yn nodi ateb tai priodol i'r gymuned Teithwyr. Esboniodd fod y rhain yn parhau, ac roedd Asesiad Sipsiwn / Teithwyr drafft newydd wedi'i gomisiynu a'i rannu â Llywodraeth Cymru a'i ystyried gan y swyddogion. Parhaodd y swyddogion i chwilio am safleoedd eraill a lywir bellach drwy'r adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol hefyd. Byddai fersiwn derfynol o'r adroddiad / asesiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i'w ystyried maes o law.

Yn olaf, cyfeiriodd Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu at rai diwygiadau bach yr oedd angen eu gwneud gan gyfeirio at Amserlen Arfaethedig Blaenraglen Waith Flynyddol 2022/23 (Atodiad F), cyn iddi gael ei lanlwytho i wefan y Cyngor ac yn dilyn cymeradwyaeth gan y Pwyllgor:

- Symud y Cyflwyniad ar Gynhwysiant Digidol o fis Mehefin i fis Gorffennaf 2022 yn Amserlen y Rhaglen Waith.
- Ailenwi'r adroddiad ar gyfer Cau Cyfrifon 2020/21 i 'Cau Cyfrifon 2021/22' ar y Rhaglen Waith.

Gwnaeth y Pwyllgor, ar ôl ystyried y cyflwyniad a phob mater a goblygiad ynddo,

ARGYMHELLWYD –

(1) Y dylid cytuno ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiad A i D yr adroddiad.

(2) Y dylid nodi Blaenraglen Waith Flynyddol y Cabinet ar gyfer 2022/23 sydd ynghlwm yn Atodiad E, yng nghyd-destun cynnwys Blaenraglen Waith Flynyddol Pwyllgor Craffu Tai a Chymunedau Diogel 2022/23.

(3) Cymeradwyo Atodlen Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol arfaethedig y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 sydd ynghlwm yn Atodiad F a'i lanlwytho i wefan y Cyngor, yn amodol ar wneud y diwygiadau a ganlyn:

- Symud y Cyflwyniad ar Gynhwysiant Digidol o fis Mehefin i fis Gorffennaf 2022 yn Atodlen y Rhaglen Waith

- Bod yr adroddiad ar gyfer Cau Cyfrifon 2020/21 yn cael ei ailenwi i Gau Cyfrifon 2021/22.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Parhau i dracio argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2) Cyd-fynd ag Adran 7.6 o Brotocol Rolau a Chyfrifoldebau'r Cabinet a Chraffu.

(3) Er gwybodaeth i’r cyhoedd.